

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Cyflwyniad

Gwent Well-being Assessment

Cynnwys

ADRAN 1 – CYDWEITHIO I WELLA LLESIANT	2
1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	2
1.2 Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	3
1.3 Gwent	3
1.4 Y cymunedau	9
1.5 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent	10
1.6 Blaenoriaethau cenedlaethol a lleol presennol	11
1.7 Sut y cynhaliwyd yr Asesiad Llesiant hwn	14
1.8 Cyd-destun pandemig COVID-19	15
1.9 Gwent yn y Dyfodol	15
1.10 Dangosyddion cenedlaethol	16
Cyfeiriadau	17

ADRAN 1 – CYDWEITHIO I WELLA LLESIANT

1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Ym mis Ebrill 2016, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Nod y ddeddfwriaeth arloesol hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cenedl a'i chymunedau.

Mae'r Ddeddf yn nodi sut y bydd angen i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Cyfeirir at y rhain fel y pum ffordd o weithio. Bydd gweithredu fel hyn yn golygu ein bod yn llawer mwy tebygol o greu lle y mae pob un ohonom am fyw ynddo, nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant, sydd i'w gweld yn Ffigur 1.




Ffigur 1: Saith Nod Llesiant o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae angen i bob un o'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhwymo gan y Ddeddf bennu eu hamcanion llesiant eu hunain erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Rhaid iddynt hefyd ddod ynghyd ym mhob ardal awdurdod lleol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phennu amcanion llesiant ar y cyd ar gyfer yr ardal honno yn ei chyfanrwydd. Gwneir hyn bob pum mlynedd a lluniwyd y cyntaf yng ngwanwyn 2018.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal o leiaf flwyddyn cyn iddo gyhoeddi ei **Gynllun Llesiant**. Yr asesiad hwn a gyflwynodd y dystiolaeth ar gyfer nodi blaenoriaethau allweddol a chynllunio sut i wella llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Hwn yw Asesiad Llesiant cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ac mae'n seiliedig ar amrywiaeth helaeth o ffynonellau, gan gynnwys data'r cyfrifiad a data ystadegol, polisiau a gwaith ymchwil a thystiolaeth ansoddol sy'n crynhoi safbwyntiau a chanfyddiadau pobl a hefyd yn rhoi cyd-destun i ddata meintiol a gwaith ymchwil academiaidd.

Wrth ddatblygu'r asesiad hwn, rydym wedi cadw'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn cof, sef gwella ein llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol nawr ac yn y dyfodol. Rydym wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio, sef **cydweithio**, **integreiddio**, **cynnwys**, **hirdymor** ac **atal**, i arwain ein gwaith. Golyga hyn ein bod wedi ystyried llesiant yn ein cymunedau nawr, ond hefyd wedi ystyried yr effeithiau posibl ar lesiant yn y **dyfodol**, a sut y gallwn **atal** problemau rhag gwaethygu. Rydym wedi **cydweithio** er mwyn gweld

beth mae pob un ohonom yn ei wneud mewn cymuned a sut mae'r wybodaeth sydd gennym am gymuned yn effeithio ar yr hyn a wnawn, yn unigol ac mewn partneriaeth. Yn olaf, ond yn bwysicaf oll, rydym wedi **cynnwys** ein cymunedau, gweithwyr proffesiynol, busnesau ac eraill er mwyn darganfod y materion sydd bwysicaf iddynt.



Ffigur 2: Y pum ffordd o weithio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Figure 2:

Collaboration	Cydweithio
Integration	Integreiddio
Involvement	Cynnwys
Long-term	Hirdymor
Prevention	Atal

1.2 Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Sefydlodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ym mhob ardal bwrdd iechyd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol baratoi **Asesiad o Anghenion y Boblogaeth** ac Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn canolbwyntio ar **anghenion pobl y mae angen iddynt gael cymorth iechyd a gofal** yn yr ardal leol. Ceir cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng yr asesiad *Llesiant* a'r asesiad o'r *Boblogaeth* ac rydym wedi cydweithio i roi darlun cyfannol o Went, lle bo modd. Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – **llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, hybu llesiant a phartneriaeth ac integreiddio** – yn debyg i'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.


1.3 Gwent

Arwynebedd 	Cyfanswm arwynebedd Gwent yw 158,500 hectar – tua 7.6% o gyfanswm arwynebedd Cymru.				
	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
	10,900	28,000	88,000	19,000	12,600

Poblogaeth 	Amcangyfrifir bod gan Went poblogaeth o 594,164, sef tua 19% o gyfanswm poblogaeth Cymru¹ <table><tr><th>Blaenau Gwent</th><th>Caerffili</th><th>Sir Fynwy</th><th>Casnewydd</th><th>Torfaen</th></tr><tr><td>69,862</td><td>181,075</td><td>94,590</td><td>154,676</td><td>93,961</td></tr></table>	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen	69,862	181,075	94,590	154,676	93,961
Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen							
69,862	181,075	94,590	154,676	93,961							
Dwysedd poblogaeth	Dwysedd poblogaeth Gwent yw 3.75 person yr hectar. Dwysedd poblogaeth Cymru yw 1.52 person yr hectar. <table><tr><th>Blaenau Gwent</th><th>Caerffili</th><th>Sir Fynwy</th><th>Casnewydd</th><th>Torfaen</th></tr><tr><td>6.4</td><td>6.5</td><td>1.07</td><td>8.14</td><td>7.46</td></tr></table>	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen	6.4	6.5	1.07	8.14	7.46
Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen							
6.4	6.5	1.07	8.14	7.46							
Anheddau 	Mae 275,882 o anheddau yng Ngwent, sef tua 18.2% o gyfanswm nifer yr aelwydydd yng Nghymru². <table><tr><th>Blaenau Gwent</th><th>Caerffili</th><th>Sir Fynwy</th><th>Casnewydd</th><th>Torfaen</th></tr><tr><td>33,663</td><td>81,837</td><td>44,499</td><td>72,325</td><td>43,558</td></tr></table>	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen	33,663	81,837	44,499	72,325	43,558
Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen							
33,663	81,837	44,499	72,325	43,558							

Mae Gwent yn cwmpasu pum ardal awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, a oedd yn gynghorau bwrdeistref o fewn sir Gwent cyn 1996. Ers 1996, mae'r pum awdurdod wedi bod yn awdurdodau unedol, ond mae nifer o wasanaethau a sefydliadau yn dal i ddangos ôl troed Gwent.

Mae daearyddiaeth Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd cefn gwlad, canolfannau trefol a chymoedd mwyaf dwyreiniol De Cymru.



Ffigur 3: Map yn dangos lleoliad Gwent yng Nghymru a Ffigur 4: Map yn dangos pum awdurdod lleol Gwent ³

'Atgynhyrchwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron. Byddai atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron, a gall hynny arwain at erlyniad/achos sifil. RHIF TRWYDEDED LA 100023426 2007

Blaenau Gwent

Mae ardal Blaenau Gwent wedi'i lleoli yng nghymoedd De-ddwyrain Cymru, ac fe'i nodweddir yn ffisegol gan fryniau uchel sy'n gwahanu tri phrif gwm. Mae'r cymoedd hyn yn gartref i drefi a phentrefi sy'n rhoi ymdeimlad trefol, prysur i'r fwrdeistref sirol, ond ardal wledig yw Blaenau Gwent yn bennaf mewn gwirionedd.

Yn sgil y chwyldro diwydiannol a dyfodiad gweithfeydd haearn, pyllau glo a chynhyrchu dur, tyfodd poblogaeth Blaenau Gwent o tua 1,200 i ymhell dros 120,000 erbyn dechrau'r 20fed ganrif. Roedd gan bobl Blaenau Gwent ymdeimlad cryf o gymuned ac etheg gwaith gadarn, a welwyd yn glir wrth iddynt ymgyrchu dros welliannau i'w hansawdd bywyd, megis sefydlu'r Bwrdd Iechyd cyntaf erioed ac ymgyrchu dros ddiwygio etholiadol. Mae gan Flaenau Gwent dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog sydd i'w gweld mewn cofebau, adeiladau, tirweddau a phobl.

Dros y degawdau diwethaf, mae pobl Blaenau Gwent wedi wynebu llawer o heriau, gan gynnwys cau'r holl byllau glo ar ddiwedd yr 1980au, a gwaith dur Glynebwy yn 2002, a arweiniodd at golli llawer o swyddi. Er mwyn ceisio lleihau effaith hyn, gwnaed cryn ymdrech i newid ffocws yr economi leol er mwyn canolbwyntio at y diwydiannau gweithgynhyrchu a gwasanaethau. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, collwyd swyddi ar y cyfan a bu'n rhaid i lawer o'n pobl ifanc a theuluoedd symud i ffwrdd i chwilio am addysg bellach a chyflogaeth. Mae'r ffaith bod maint y boblogaeth wedi lleihau 5% rhwng 1991 a 2011 yn dangos hyn yn glir. Mae llawer o'r trigolion sy'n gweithio yn cymudo allan o'r fwrdeistref i weithio ac mae pellteroedd cymudo wedi cynyddu mwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Ceir lefelau diweithdra uchel yn yr ardal, a chanran uchel o bobl sy'n ddibynol ar fudd-daliadau.

Yn fwy diweddar, gwelwyd gwelliannau strwythurol ac amgylcheddol yn yr ardal, yn dilyn lefelau uchel o fuddsoddiad cyfalaf a'r broses o wyrddu ein cymoedd wrth i natur ymadfer yn dilyn y niwed hirdymor a achoswyd gan ein diwydiannau hanesyddol.



Ffigur 3: (O'r chwith i'r dde) Gwarcheidwad y Cymoedd yn Six Bells, Cloc Tref Tredegar, Swyddfeydd Cyffredinol Glynebwy a Champws Coleg Gwent.

Caerffili

Mae bwrdeistref sirol Caerffili yn cwmpasu ardal sy'n ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd i Gaerdydd a Chasnewydd yn y de ac sydd ychydig dros 30km o hyd ac 17.5km o led. Mae'n cynnwys dyffrynnoedd tair afon, sef afon Rhymni, afon Sirhywi ac afon Ebwy, gyda chymysgedd o gymunedau trefol a gwledig. Defnyddir tri chwarter y fwrdeistref sirol ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Ceir pum prif ganolfan ym mwrdeistref sirol Caerffili, sef Caerffili, Coed-duon, Rhisga, Bargoed ac Ystrad Mynach, yn ogystal â phedair canolfan leol, sef Trecelyn, Rhymni, Nelson a Bedwas. Mae'r rhain yn ganolfannau pwysig o ran cyflogaeth, manwerthu a darparu gwasanaethau, ac fel canolfannau poblogaeth.

Mae pobl wedi'u gwasgaru'n eang rhwng 50 o drefi a phentrefi bach, ac mae'r prif aneddiadau'n adlewyrchu treftadaeth lofaol gyfoethog yr ardal.

Mae economi Caerffili yn tyfu ac mae'n elwa ar gysylltiadau trafnidiaeth da â Chaerdydd, ond mae cryn dipyn o ddiweithdra ac iechyd gwael.



Figure 4: (Left to right) Caerphilly Castle, Cyclists at Cwmcarn Forest, Sultan at Penallta Park

Ffigur 5: (O'r chwith i'r dde) Castell Caerffili, Beicwyr yng Nghoedwig Cwmcarn, Swltan ym Mharc Penalltau

Sir Fynwy

Mae Sir Fynwy mewn lleoliad strategol rhwng prif ganolfannau De Cymru a De-orllewin a Chanolbarth Lloegr. Y prif aneddiadau yw'r Fenni, Cas-gwent, Trefynwy, Cil-y-coed, Brynbuga a Magwyr/Gwndy, gyda thua hanner y boblogaeth yn byw mewn wardiau yr ystyrir eu bod mewn ardaloedd trefol. Mae patrwm aneddiadau nodedig Sir Fynwy yn deillio o'i threfi a phentrefi marchnad hanesyddol a'u perthynas â'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae rhwydwaith ffyrdd da yn cysylltu Sir Fynwy â chanolfannau poblogaeth mawr fel Caerdydd, Casnewydd a Bryste ac mae llawer o'r bobl yn manteisio ar y cysylltiadau hyn drwy gymudo allan o'r ardal i weithio.

Ardal wledig yw'r sir yn bennaf, ac mae ganddi dirwedd gyfoethog ac amrywiol sy'n ymestyn o forlin Gwastadeddau Gwent yn y de, ac ucheldir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd, i goridor afon prydferth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy yn y dwyrain. Mae'r sir yn cynnwys rhywfaint o dir amaethyddol o ansawdd da ac mae ganddi gyfran uchel o dir ffermio. Ar y cyfan, mae Sir Fynwy yn ardal ffyniannus sy'n cynnig ansawdd bywyd da i'w thrigolion. Fodd bynnag, ceir mannau cudd o amddifadedd sy'n fwy amlwg pan gânt eu cymharu ag ardaloedd o gyfoeth cymharol.



Figure 7: (Left to right) Abergavenny Food Festival, Autumn in the Wye Valley, from Eagles Nest, and Caldicot Castle

Ffigur 6: (O'r chwith i'r dde) Gŵyl Fwyd y Fenni, Yr Hydref yn Nyffryn Gwy, o Nyth yr Eryr, a Chastell Cil-y-coed

Casnewydd

Dinas Casnewydd yw'r drydedd ganolfan drefol fwyaf yng Nghymru, ac mae'n ddinas amlddiwylliannol sydd â'i hawyrgylch unigryw ei hun, lle mae diwydiannau traddodiadol yn bodoli ochr yn ochr â sectorau electroneg a gwasanaethau cyllid newydd. Mae'n ddinas fywiog, flaengar a chanddi dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog amlwg sy'n dyddio o'r 19eg ganrif pan gafodd ei lleoliad strategol pwysig ei gydnabod am y tro cyntaf. Cyrhaeddodd ymsefydlwyr cyntaf ardal Casnewydd yn ystod yr Oes Efydd ac mae tystiolaeth o hyn wedi goroesi hyd heddiw, yn enwedig ar y gwastadeddau arfordirol. Yn ystod y Goresgyniad Rhufeinig, daeth Caerllion yn brif ganolfan filwrol ac mae cryn dipyn o olion datgloddedig i'w gweld, gan gynnwys yr amffitheatr, baddonau a'r barics a ddefnyddiwyd gan y Lloeg Rufeinig. Yn ystod y Chwyldro Diwydiannol ar ddiwedd y 18fed ac yn y 19eg ganrif, tyfodd y ddinas yn sylweddol, yn gyntaf gyda datblygiad y rhwydwaith camlesi ac yna gyda'r rheilffyrdd, gan alluogi symiau mawr o lo i gael eu hallforio ynghyd â chynhyrchion haearn a dur. Yn fwy diweddar, y gwaith dur oedd prif gynhaliwr yr economi drwy gydol yr 20fed ganrif, ynghyd â'r porthladd. Fodd bynnag, gwelwyd dirywiad yn y rhan fwyaf o'r diwydiant trwm tua diwedd y ganrif, er enghraifft pan ddaeth roddwyd y gorau i gynhyrchu dur yng ngwaith dur Llanwern yn 2001, gan arwain at golli 1,300 o swyddi.



Figure 9: (Left to right) Southern Distributor Road Bridge in Newport, Beechwood Park, Newport, and the Transporter Bridge.

Figur 8: (O'r chwith i'r dde) Pont y Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yng Nghasnewydd, Parc Beechwood, Casnewydd, a'r Bont Gludo.

Torfaen

Torfaen yw cwm trefol mwyaf dwyreiniol De Cymru. Yn ddaearyddol, mae'r ardal yn ymestyn o Flaenau'r Cymoedd yn y gogledd i goridor yr M4 yn y de, gyda thri phrif anheddiad, sef Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Sefydlwyd Pont-y-pŵl a Blaenafon yn wreiddiol er mwyn manteisio ar yr adnoddau siarcol, glo a haearn helaeth yn yr ardal. Wrth i'r diwydiannau trwm hynny ddirywio dros y 100 mlynedd diwethaf, gwelwyd dirywiad yn ffyniant yr ardaloedd hynny hefyd.

Mae gan dref Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon boblogaeth o tua 6,500⁴. Hon yw'r dref fwyaf gogleddol yn y fwrdeistref ac mae'n enwog am fod yn gartref i Amgueddfa Lofaol Pwll Mawr a'r gwaith haearn o'r 18fed ganrif sydd wedi goroesi orau yn Ewrop. Hen dref ddiwydiannol Pont-y-pŵl, gyda'i marchnad dan do ac awyr agored draddodiadol yw'r anheddiad mwyaf ond un. Mae wedi'i lleoli yng nghanol y fwrdeistref ac, ar y cyd â'r amrywiol gymunedau o'i chwmpas, mae ganddi boblogaeth o tua 37,700⁵. Yn ne'r fwrdeistref, mae Cwmbrân yn unigryw am mai hon yw'r unig Dref Newydd yng Nghymru, wedi iddi gael ei dynodi yn 1949 a'i dylunio fel tref nodedig, flaengar a modern sy'n cynnig cyfleoedd newydd i'w thrigolion. Mae llawer o rannau deheuol y fwrdeistref sirol bellach wedi'u trefoli o amgylch Cwmbrân, sydd â'r boblogaeth fwyaf o blith y tri anheddiad, sef tua 49,800⁶. Mae Canolfan Siopa Cwmbrân yn denu llawer o siopwyr o ardal ehangach Gwent a choridor yr M4.



Figure 10: Aerial photo of Cwmbran, The Folly at Pontypool, The World Heritage Centre, Blaenavon.

Figur 11: Ffotograff o'r awyr o Gwmbrân, y Tŵr Ffoledd ym Mhont-y-Pŵl, Canolfan Treftadaeth y Byd, Blaenafon.

1.4 Y cymunedau

Gall deall sut y gallai'r boblogaeth newid yn y dyfodol ein helpu i feddwl am heriau a chyfleoedd allweddol o ran llesiant.

Amcanestyniadau poblogaeth

Poblogaeth gyffredinol Rhagwelir y bydd poblogaeth gyffredinol Gwent yn **cynyddu 6.2%** rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i gyfartaledd Cymru (5.2%). Yng Ngwent, byddai hyn yn golygu **36,987** yn rhagor o bobl⁷.



Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
-415 o bobl (0.6%)	3,645 o bobl (2.0%)	6,789 o bobl (7.2%)	22,103 o bobl (14.3%)	4,865 o bobl (5.2%)

16-64 oed

Rhagwelir y bydd nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n byw yng Ngwent yn **cynyddu** fymryn, sef **0.7%** erbyn 2043, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru (-0.5%). Yng Ngwent, byddai hyn yn golygu **2,367** yn rhagor o bobl yn yr ystod oedran hon⁸.

	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
	-2,568 o bobl (-5.9%)	-3,487 (-3.1%)	-1,723 (-3.1%)	10,125 o bobl (10.6%)	19 o bobl (0%)
65 oed a throsodd 	Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd sy'n byw yng Ngwent yn cynyddu 31.2% rhwng 2019 a 2043, sy'n weddol debyg i gyfartaledd Cymru (29%). Yng Ngwent, gallai hyn olygu 37,263 yn rhagor o bobl yn yr ystod oedran hon ⁹ .				
	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
	3,250 (23.2%)	9,653 (27.2%)	9,161 (38.4%)	9,810 (36.8%)	5,389 (28.0%)
85 oed a throsodd 	Rhagwelir y bydd nifer y bobl 85 oed a throsodd sy'n byw yng Ngwent yn cynyddu 74% rhwng 2019 a 2043, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru (69.5%). Yng Ngwent, gallai hyn olygu 10,615 yn rhagor o bobl yn yr ystod oedran hon ¹⁰ .				
	Blaenau Gwent	Caerffili	Sir Fynwy	Casnewydd	Torfaen
	860 (57.0%)	3,145 (82.6%)	2,993 (91.5%)	1,895 (57.5%)	1,722 (69.9%)

1.5 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent



Yn 2020, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ei Hadolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus¹¹ a oedd yn edrych ar drefniadau gweithredol a pha bartneriaid a oedd yn rhan o'r gwaith. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod "Byrddau Gwasanaethau Lleol yn annhebygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol".



Hefyd, tynnodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sylw at rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y gwaith o symleiddio a chysoni partneriaethau strategol¹².

Ar hyn o bryd, mae gan y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent **24 o amcanion llesiant** rhyngddynt. Mae llawer o'r amcanion hyn ar yr un themâu, ond yn cael eu cyflawni ar wahân. A ninnau ar drothwy cylch newydd o asesiadau llesiant, mae Arweinwyr a Phrif Weithredwyr y pum awdurdod lleol, yn ogystal â Chadeiryddion a/neu Brif Swyddogion

y pum gwasanaeth cyhoeddus mawr arall yng Ngwent, wedi nodi cyfle i **symleiddio** ac **atgyfnerthu** trefniadau partneriaeth sydd eisoes ar waith drwy ddwyn yr holl wasanaethau cyhoeddus ynghyd mewn un **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol ar gyfer Gwent**.

Mae sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol, sydd â chyfrifoldeb cyfunol am wella llesiant, yn ei gwneud yn haws i'r partneriaid gymryd rhan, ychwanegu gwerth ac osgoi dyblygu gweithgarwch. Drwy hwyluso gwell **integreiddio** a **chydweithio**, gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu, gan adeiladu ar arferion da, i wneud defnydd gwell o **adnoddau** a meithrin **gallu** – fel bod y ffocws ar wneud mwy o'r hyn sy'n bwysig – **gwella llesiant**.

Yr hyn sydd wrth wraidd y trefniant newydd yw cydnabyddiaeth bod cymunedau Gwent i gyd yn unigryw ac yn wynebu gwahanol amodau sy'n dylanwadu ar lesiant y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Ochr yn ochr â llunio darlun rhanbarthol, integredig o lesiant, byddwn yn myfyrio ar yr heriau a chyfleoedd o ran llesiant ar lefel leol, gan ystyried cryfderau unigolion a chymunedau.

Mae sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol yn cynnig cyfeiriad mwy strategol a ffordd o oruchwylio'r trefniadau partneriaeth lleol sydd eisoes ar waith. Mae pob ardal wedi rhoi ei strwythurau gweithredol a strategol lleol ei hun ar waith ar gyfer cyflawni ac atebolrwydd ac mae Grwpiau Cyflawni Lleol yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau a gweithgareddau lleol yn parhau i gael eu cyflawni.

1.6 Blaenoriaethau cenedlaethol a lleol presennol

Fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer y 25 mlynedd nesaf a thu hwnt, mae'r cylch cyntaf o Gynlluniau Llesiant yn nodi sut rydym yn ymateb ar y cyd i rai o'r materion allweddol a nodwyd pan aethom ati i asesu llesiant lleol yn 2016/17.

Mae ein blaenoriaethau presennol yn nodi sut rydym yn cydweithio â'n gilydd i wella llesiant i bobl a lleoedd, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, fel y gallwn wireddu ein gweledigaeth hirdymor.

Cyn bo hir, bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyrraedd diwedd y cylch cyntaf o waith asesu, cynllunio a chyflawni eu hamcanion llesiant lleol. Bydd gwaith yn parhau i gyflawni'r cynlluniau presennol hyn tan 2023, gydag adroddiadau blynyddol ar gynnydd.

Mae'r Asesiad Llesiant hwn yn gyfle i ni benderfynu a yw ein hamcanion llesiant yn iawn o hyd, a fydd angen i ni wneud mwy o rai pethau a llai o bethau eraill, a beth yw'r ffyrdd gorau o gydweithio drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd Gwent mewn ffordd sy'n adeiladu'n gadarnhaol ar yr hyn sydd wedi bod o'r blaen.

Asesiad Llesiant Gwent

Blaenau-Gwent	Caerphilly	Monmouthshire	Newport	Torfaen
To look after and protect the natural environment.	Enabling our communities to be resilient and sustainable.	Protect and enhance the resilience of our natural environment whilst mitigating and adapting to the impact of climate change.	Newport has healthy, safe and resilient environments with an integrated sustainable travel network.	Develop a functional, connected network of natural areas that support the current and future well-being needs of local populations. Develop mitigation and adaptation responses to the impacts of climate change.
Safe and friendly communities.				Create safe, confident communities and promote community cohesion.
The best start in life for everyone.	Giving our future generations the best start in life.	Provide children and young people with the best possible start in life.		Provide children and young people with the best possible start in life.
To encourage healthy lifestyles.		Respond to the challenges associated with demographic change.	Everyone belongs to resilient, friendly, connected communities and feels confident and empowered to improve their well-being.	Support healthy lifestyles and enable people to age well.
To forge new pathways to prosperity.	Empowering and enabling all our residents to achieve their own potential.	Develop opportunities for communities and businesses to be part of an economically thriving and well-connected county.	Everyone has the skills and opportunities they need to develop, prosper and contribute to a thriving, sustainable city. Everyone feels good about living, working, visiting and investing in our unique city.	Tackle the inter generational patterns of poverty and develop economic resilience. Improve local skills through work-force planning, training, apprenticeships, and volunteering opportunities.
	A shared commitment to improving the way we work together.			

Ffigur 6: Amcanion llesiant presennol (2018-23) pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Ffigur 6:

Blaenau-Gwent	Blaenau Gwent
To look after and protect the natural environment.	Gofalu am yr amgylchedd naturiol a'i ddiogelu.
Safe and friendly communities.	Cymunedau diogel a chyfeillgar.
The best start in life for everyone.	Y dechrau gorau mewn bywyd i bawb.
To encourage healthy lifestyles.	Annog ffyrdd iach o fyw.
To forge new pathways to prosperity.	Ffurio llwybrau newydd at ffyniant.
Caerphilly	Caerffili
Enabling our communities to be resilient and sustainable.	Galluogi ein cymunedau i fod yn gryf ac yn gynaliadwy.
Giving our future generations the best start in life.	Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i genedlaethau'r dyfodol.
Empowering and enabling all our residents to achieve their own potential.	Grymuso a galluogi ein holl drigolion i gyflawni eu potensial eu hunain.
A shared commitment to improving the way we work together.	Ymrwymiad a rennir i wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd.
Monmouthshire	Sir Fynwy
Protect and enhance the resilience of our natural environment whilst mitigating and adapting to the impact of climate change.	Diogelu ac atgyfnerthu ein hamgylchedd naturiol gan liniaru effaith newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo ar yr un pryd.
Provide children and young people with the best possible start in life.	Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc.

Respond to the challenges associated with demographic change.	Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig.
Develop opportunities for communities and businesses to be part of an economically thriving and well-connected county.	Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac wedi'i chysylltu'n dda.
Newport	Casnewydd
Newport has healthy, safe, and resilient environments with an integrated sustainable travel network.	Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a chadarn ynghyd â rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig.
Everyone belongs to resilient, friendly, connected communities and feels confident and empowered to improve their well-being.	Mae pawb yn perthyn i gymunedau cryf, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu llesiant.
Everyone has the skills and opportunities they need to develop, prosper and contribute to a thriving, sustainable city.	Mae pawb yn meddu ar y sgiliau ac yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu, llwyddo a chyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy.
Everyone feels good about living, working, visiting and investing in our unique city.	Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw a gweithio yn ein dinas unigryw, ymweld â hi a buddsoddi ynddi.
Torfaen	Torfaen
Develop a functional, connected network of natural areas that support the current and future well-being needs of local populations.	Datblygu rhwydwaith gweithredol a chysylltiedig o ardaloedd naturiol sy'n diwallu anghenion llesiant poblogaethau lleol nawr ac yn y dyfodol.
Develop mitigation and adaptation responses to the impacts of climate change.	Datblygu mesurau lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
Create safe, confident communities and promote community cohesion.	Creu cymunedau diogel a hyderus a hybu cydlyniant cymunedol.
Provide children and young people with the best possible start in life.	Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc.
Support healthy lifestyles and enable people to age well.	Cefnogi ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda.
Tackle the inter generational patterns of poverty and develop economic resilience.	Mynd i'r afael â'r patrymau tlodi rhwng y cenedlaethau a meithrin cadernid economaidd.
Improve local skills through work force planning, training, apprenticeships, and volunteering opportunities.	Gwella sgiliau lleol drwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd i wirfoddoli.

Yn ogystal â'r amcanion llesiant lleol, mae'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent wedi bod yn cydweithio â'i gilydd ar nifer bach o ffrydiau gwaith rhanbarthol sy'n fwy tebygol o gael eu cyflawni ar lefel ranbarthol yn hytrach nag ar lefel lleol. Ymhlith y rhain mae ystyried senarios yn y dyfodol sy'n debygol o effeithio ar ein cymunedau, a chydweithio drwy Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd.


Mae Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent yn dod â swyddogion allweddol ynghyd o Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub, Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r pum awdurdod lleol. Sefydlwyd y Grŵp yn wreiddiol er mwyn helpu i baratoi'r Asesiadau Llesiant cyntaf, ac mae wedi parhau i gydweithio, gan bennu a chydysylltu'r blaenoriaethau strategol hyn.

1.7 Sut y cynhaliwyd yr Asesiad Llesiant hwn

Mae'r Asesiad Llesiant ar y cyd hwn yn seiliedig ar y wybodaeth a'r profiad a gafodd pob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth lunio'r asesiadau diwethaf yn 2017. Rydym wedi dysgu oddi wrth ein gilydd ynglŷn â'r hyn a weithiodd yn dda, ar hyn nad oedd cystal, fel bod yr asesiad mor effeithiol â phosibl.

Mae cynnal asesiad ar y cyd ychydig yn wahanol i gynnal un ar gyfer pob un o ardaloedd y cynghorau. Mae'n well ystyried rhai agweddau ar lefel ranbarthol (Gwent), ac mae eraill yn fwy lleol, gan eu bod yn effeithio ar gymunedau neu ardaloedd unigol.

Lluniwyd yr asesiad ar sail y pedair thema llesiant a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. O dan bob un o'r themâu, ceir gwybodaeth ranbarthol, ac yna Asesiadau o'r Ardaloedd Cymunedol. Bydd mapiau a dolenni o fewn yr asesiad hwn yn eich helpu i ddod o hyd i'ch cymuned, neu faes sydd o ddiddordeb i chi.



Ffigur 7: Ardaloedd a hierarchaeth asesu

Mae'r asesiad hwn yn dod ag amrywiaeth o wybodaeth ynghyd er mwyn helpu i esbonio'r sefyllfa bresennol yng Ngwent a'i chymunedau a'r hyn sy'n bwysig wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi defnyddio data a gasglwyd ar lefelau cenedlaethol a lleol, wedi siarad â llawer o'r rhai sy'n gweithio yn y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau, yn ogystal â phobl a chymunedau sy'n byw ac yn gweithio mewn ardal.

Drwy gydweithio â'i gilydd, mae'r cyrff cyhoeddus yng Ngwent wedi casglu, dadansoddi a phrofi'r wybodaeth hon er mwyn cynnal yr asesiad hwn. Rydym wedi cynnwys ein cymunedau er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o brofiadau pobl a gwerthfawrogi'r ffordd y gall pob un

ohonom gydweithio â'n gilydd i wella llesiant, gan ganolbwyntio ar gryfderau ein pobl a lleoedd.

1.8 Cyd-destun pandemig COVID-19

Mae COVID-19 wedi effeithio ar bob un ohonom. Bydd llawer ohonom wedi cael COVID-19, neu'n adnabod pobl sydd wedi'i gael ac, yn anffodus, bydd rhai ohonom wedi adnabod pobl a fu farw o ganlyniad iddo. Mae cyfnodau clo a ffyrlo wedi golygu bod pobl yn rhoi addysg gartref, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ac yn gyrru mwy, neu'n colli eu swyddi, hyd yn oed. Bydd y pandemig wedi effeithio ar farn pawb i ryw raddau.

Yn yr un modd, bydd yr ymateb i'r pandemig wedi effeithio ar rywfaint o'r data. Mae rhestrau aros ysbytai yn enghraifft amlwg, gan fod staff ac adnoddau wedi cael eu dargyfeirio i drin pobl â COVID-19. Ond bu effeithiau economaidd a chymdeithasol hefyd; mae busnesau wedi bod ar gau neu'n gweithio â chapasiti cyfyngedig ac nid yw pobl wedi gallu teithio, cwrdd â ffrindiau na chael diwrnodau allan.

Wrth ddatblygu'r asesiad hwn, rydym wedi ystyried sut y gall y pandemig, yn ogystal â ffactorau eraill, effeithio ar lesiant yn y dyfodol. Mae'n debygol y daw llawer o'r materion rydym wedi'u nodi yn llawer mwy difrifol wrth i ni adfer ar ôl effeithiau'r pandemig. Ceir risg y bydd anghydraddoldeb yn ein cymunedau yn gwaethygu, a allai ddylanwadu ar bob agwedd ar ein llesiant.

O ganlyniad i hynny, mae'n bosibl na fydd rhywfaint o'r wybodaeth yn yr asesiad yr un fath â'r hyn y byddem wedi'i ddisgwyl cyn y pandemig, ac felly bu'n rhaid i ni ystyried a gafodd data eu newid oherwydd y pandemig cyn ystyried beth mae hynny'n ei olygu i ardal neu gymuned.

Oherwydd y cyfyngiadau parhaus yn sgil COVID-19, bu'n rhaid i ni gynnwys ein cymunedau mewn ffyrdd gwahanol. Pan oeddem yn paratoi'r asesiad diwethaf, roedd modd i ni gwrdd â phobl wyneb yn wyneb. Y tro hwn, bu'n rhaid i ni ddibynnu'n fwy helaeth ar y rhynggrwyd, y cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill o ymgysylltu â phobl o bell. Er y bydd hyn yn addas i rai pobl, derbyniwn nad yw'n addas i bawb ac rydym wedi ceisio dod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â phobl yn yr ardaloedd lle maent yn byw neu'n gweithio lle bynnag y bo modd. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd yr aethom ati i gynnwys pobl yn y gwaith o gynnal yr asesiad hwn, gweler yr adran ar Ymgysylltu (hyperddolen).

1.9 Gwent yn y Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol bob pum mlynedd, er mwyn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i feddwl am yr heriau a'r cyfleoedd hirdymor sy'n wynebu Cymru. Rydym wedi ystyried yr adroddiad hwn wrth gynnal yr asesiad hwn ac wedi'i ddefnyddio i'n helpu i ystyried sut y bydd y tueddiadau hyn yn effeithio ar lesiant ein cymunedau ymhen blynnyddoedd, er gwell ac er gwaeth. Mae hefyd wedi ein helpu i ddarganfod y rhannau hynny o'n cymunedau sy'n fwyaf agored i niwed yn sgil newidiadau negyddol. Mae hyn yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio ar y cyd yn unol â hynny, gan bennu camau gweithredu lleol cost-effeithiol ac ataliol sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi meithrin cyd-ddealltwriaeth o'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau a sut y gallai'r rhain newid yn y dyfodol. Rydym yn deall pwysigrwydd sicrhau y caiff plant a phobl ifanc y dechrau gorau mewn bywyd a'r angen i fynd i'r afael â phatrymau tlodi sy'n parhau o un genhedlaeth i'r nesaf fel bod y gwahaniaethau hyn yn lleihau dros amser.

Rydym wedi ystyried newidiadau i boblogaeth ein hardal yn y dyfodol. Er enghraifft, er y bydd cynnydd yn nifer y bobl hŷn yn ein cymunedau yn cynyddu'r galw am wasanaethau, gall hefyd olygu y bydd mwy o bobl yn gallu cefnogi eu cymunedau drwy wirfoddoli.

Rydym wedi meddwl am yr hyn y bydd twf economaidd lleol, cynaliadwy yn ei olygu i Went, pa sgiliau y gallai fod eu hangen ar weithluoedd y dyfodol, ac effaith datblygiadau technolegol ar ein cymunedau. O ganlyniad i COVID-19, mae mwy o'n gwasanaethau wedi symud ar-lein, a gwyddom mai'r disgwyl yw y bydd hyn yn parhau. Er bod hyn yn cynnig amrywiaeth o fanteision, rydym hefyd yn deall bod risg y bydd pobl yn cael eu gadael ar ôl gan y newid hwn, felly byddwn yn cadw hyn mewn cof wrth ystyried y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol.

Rydym wedi myfyrio ar derfynau ehangach o ran iechyd y blaned a'r amgylchedd, megis materion fel cyflenwad bwyd, colli cynefinoedd ac aer glân, a'r hyn y bydd defnyddio dim mwy na'n cyfran deg yn ei olygu i'r gallu i ddarparu'r adnoddau y bydd eu hangen ar genedlaethau'r dyfodol i gefnogi eu hunain. Rydym hefyd wedi ystyried pa mor barod ydym ni ar gyfer hinsawdd sy'n newid.

Rydym hefyd wedi ystyried sut y gallai'r tueddiadau hyn ryngweithio â'i gilydd, gan gydnabod bod popeth yn gysylltiedig a bod amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn dylanwadu ar bopeth.

1.10 Dangosyddion cenedlaethol

Mae'r [50 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol](#) yn helpu i fesur cynnydd Cymru tuag at wella llesiant. Rydym wedi defnyddio'r dangosyddion hyn, lle roedd data lleol perthnasol ar gael, ynghyd â gwybodaeth a data eraill, i ddweud wrthym am lesiant yn yr ardaloedd awdurdodau lleol sydd yng Ngwent. Mae **Atodiad 1** yn cynnig crynodeb o'r data sydd ar gael yn lleol ar gyfer dangosyddion cenedlaethol.

Cyfeiriadau

¹ Amcangyfrifon SYG o'r boblogaeth, canol 2019

² Data Awdurdodau Gwent ar anheddau. GeoPlace 2021

³ Atgynhyrchwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron. Byddai atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron, a gall hynny arwain at erlyniad/achos sifil. RHIF TRWYDDED LA 100023426 2007

⁴ Amcangyfrifon SYG o'r boblogaeth, canol 2019

⁵ Amcangyfrifon SYG o'r boblogaeth, canol 2019

⁶ Amcangyfrifon SYG o'r boblogaeth, canol 2019

⁷ Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru

⁸ Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru

⁹ Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru

¹⁰ Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddata 2018, Llywodraeth Cymru

¹¹ Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Archwilydd Cyffredinol Cymru. 08 Hydref 2019

¹² Adolygiad o Bartneriaethau Strategol. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mehefin 2019